O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 442 (Cy.64)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Gwelliant Glandyfi, Ceredigion) (Gwaharddiad a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed 16 Chwefror 2011

Yn dod i rym 25 Chwefror 2011

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn:

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Chwefror 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Gwelliant Glandyfi, Ceredigion) (Gwaharddiad a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn, neu mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw, neu ar gyfer gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 00.01 o'r gloch ar 25 Chwefror 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.